# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

RHAGFYR 1977

RHIF 45


# APÊL

# NADOLIG LLAWEN!



*Siriol yn hedfan drwy'r awyr yn ystod cwrs Gymnasteg yr Uwch adran yn ddiweddar. Darlun arall tud. 9.*

## APÊL — at ein Cyfranwyr drwy Archeb Banc

**Hoffem gydnabod gyda diolch eich cyfraniad blynyddol drwy Archeb Banc i'r *Dinesydd*. Mae cyfnod cytundebau yn amrywio, ond fe ddaw llawer ohonynt i ben ddechrau'r flwyddyn. Heb eich cymorth ariannol buasai'r *Dinesydd* yn gorfod wynebu problemau dybryd ac felly apeliwn atoch i adnewyddu'ch Archeb, os gwelwch yn dda — a chan fod ein papur yn dioddef effeithiau'r chwyddiant presennol tybed a fyddai'n bosibl i chi ychwanegu ychydig at eich cyfraniad?(Os gwnewch hyn a fyddwch garediced a rhoi manylion i'r Trysorydd.) Diolch o galon am eich cymorth yn y gorffennol. Teimlwn yn ffyddiog y byddwch yn barod i'n cefnogi unwaith eto.**

## APÊL — at Ddarpar-Gyfranwyr

**Gan fod y Dinesydd (papur bro cyntaf Cymru) bellach yn bum mlwydd oed ac yn bapur sefydlog teimlwn y gallwn apelio'n hyderus at ein darllenwyr yn gyffredinol. A wnewch chi yn awr ein cefnogi — nid yn unig gyda'ch diddordeb a'ch clod — ond hefyd trwy roi cyfraniad ymarferol, anrhydeddus er cadw'r *Dinesydd* yn fyw?**

**Byddwn yn dra diolchgar os byddwch gystal â llenwi'r Archeb Banc a ddaeth gyda'r rhifyn hwn o'r Dinesydd a'i anfon at y Trysorydd:-**

Y Br. Emrys Jarman,
198 Hill Rise,
Llanedeyrn,
Caerdydd.

**Bydd ef yn ei anfon ymlaen at eich Banc chi ac ar ôl iddo gofrestru eich cyfraniad. Mae'n bwysig gwneud hyn yn hytrach na'i anfon yn uniongyfrchol at eich Banc oherwydd mai dyma'r unig ffordd i'r Trysorydd wybod oddi wrth bwy y daw 'r cyfraniadau Archeb Banc. Diolch.**

## CYFEILLION Y THEATR GYMRAEG

**Ar nos Sul, Tachwedd 20 fed, yn Theatr y Sherman, sefydlwyd cymdeithas i hybu'r theatr yn yr iaith Gymraeg, sef "Cyfeillion y Theatr Gymraeg." Pwrpas y gymdeithas hon fydd meithrin diddordeb mewn drama Gymraeg a denu pobl i gefnogi theatr yn yr iaith Gymraeg.**

Y mae angen mawr am gymdeithas o'r fath yn wyneb y cynulleidfaoedd echrydus o fach sydd wedi bod yn mynychu dramau Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf; yn wir, o astudio'r ffigurau cynulleidfoedd ar gyfer diwethaf nid gormodiaeth fyddai dweud fod y ddrama lwyfan Gymraeg yn marw ar ei thraed.

Tanlinellwyd hyn yn anerchiad Arthur Morris Jones i'r cyfarfod agoriadol, lle cyfeiriai at y perygl y bydd y theatrau newydd sydd wrthi'n blodeuo yng Nghymru yn y blynddoedd diwethaf yn troi yn ynysoedd o Seisnigrwydd yng Nghymru yn hytrach nag atgyfnerhtu'r diwylliant Cymreig.

Am fanylion pellach ynglŷn â Chyfeillion y Theatr Gymraeg cysyllter â Brenda Jones, Theatr y Sherman, Heol Senghennydd, Caerdydd.







### PRIODAS HAPUS

Arwydd amlwg wrth ymyl Eisteddfod Porth Talbot rai blynyddoedd yn ôl oedd yr u.. a ddywedai, DANGER, EISTEDDFOD: Aeth blynyddoedd cyn imi ddeall ystyr yr arwydd, ond wedi i'r Eisteddfod fod yn Aberteifi, *rwy'n deall!* Cynorthwywr y Trefnydu yn Aberteifi oedd Ifor ap Gwilym ac yno y cyfarfu â Mererid, ac ar Sadwrn olaf mis Hydref clywid clychau yn seinio ar lannau Teifi — clychau priodas y ddau. Bellach, maen nhw'n cartrefu ar lan afon arall, afon Taf — yn Cathedral Road, Caerdydd. Dymuna'r *Dinesydd* rwydd hynt iddynt yn eu bywyd newydd.

# GOLYGYDDOL

Er gwaetha'r ffaith fod y Nadolig, fel arfer, yn esgor ar bob math o ddigwyddiadau cyffrous cyndyn iawn yw ein cymdeithasau yma'n y brifddinas i hysbysebu'r manylion, er bod digonedd o ofod yn y Dinesydd i wneud hynny. Felly, chi gymdeithasau, anfonwch ddyddiadau eich cyfarfodydd at y CALENDR CANOLOG. Hefyd byddai cwynion neu straeon (heb son am newyddion) y cymdeithasau ac unigolion yn dderbyniol dros ben.

* * *

Awgrymwyd yn ddiweddar y byddai'n fuddiol i newid enw'r *Dinesydd*, oherwydd ei fod yn swnio mor oeraidd. Beth bynnag yw'ch barn chi am hynny hoffem ddymuno *Nadolig Llawen dinesig* i'n holl ddarllenwyr. Gobeithio y daw'r Flwyddyn Newydd â bendith gyda hi ac y cawn gydweithrediad (ysgrifenedig) llawer mwy ohonoch.

* * *

Bydd y Rhifyn nesa o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Chwefror 2. Deunydd ar gyfer hwnnw erbyn Ionawr 20, os gwelwch yn dda. Y cyfeiriad yw:
3 Heol Caerdydd, Ffynnon Daf, Caerdydd.

## Y CALENDR

RHAGFYR 17 — Parti Nadolig *Y DINESYDD*. Neuadd Bentref Llandaf 8.00p.m.

IONAWR 10 — Merched y Wawr, Caerdydd. Sgwrs ar goluro — Mrs. Cissian Rees.

11 — Y Gymdeithas Wyddonol. "Lliwiau'r Amgylchedd" — Dr. Bohren.

23 — Cymdeithas Gymraeg Caerffili. "O gwmpas y filltir sgwâr" — Parch Cynwil Williams.

24-28 — Cwmni Theatr Cymru JAC Y JYNGL — y pantomeim Theatr Sherman.

28 — Cylch Meithrin Radyr. Noson Santes Dwynwen. Neuadd Morganstown.

* * * *

Tybed ai swildod neu ddiogi sy'n gyfrifol am feithiant ein Cymdeithasau Cymraeg i roi gwybodaeth am eu gweithgareddau i'r cyhoedd trwy dudalennau'r Dinesydd? Os am gyhoeddusrwydd (rhad ac am ddim) cysylltwch ar unwaith â:-
Mallt Anderson ...... FFÔN: Caerdydd 753695.

* * * *

Cylch Meithrin Cymraeg Radur a Phentrepoeth
NOSON I'R SANTES DWYNWEN
Sadwrn Ionawr 28 8.00p.m.
Yn Neuadd y Pentre Pentrepoeth (Morganstown)
Bar — Lluniaeth — Adloniant — Dawns a Chân
Tocynnau £1.50
Oddiwrth Williams 842076

CADERNID GWYNEDD
BUDDSODDWCH YNG NGHYMRU


CYMDEITHAS TAI GWYNEDD
DANFONWCH HEDDIW AT
Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd
Penygroes, Ffôn 730
Caernarfon
Gwynedd

Coleg Y Brifysgol, Caerdydd.
Darlith Goffa G.J. Williams am 1977.
Darlith Gyhoeddus
RHAI AGWEDDAU AR ENWAU-LLEOEDD CELTAIDD PRYDAIN
i'w thraddodi gan
YR ATHRO KENNETH JACKSON
Athro Celteg, Prifysgol Caeredin.
Cadeirydd: Yr Athro A.O.H. Jarman.
Theatr Ddarlithio 2.1
Adeilad y Dynoliaethau
Parc Cathays
Caerdydd
Dydd Gwener 2 Rhagfyr 1977 am 5.30p.m.
Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau'r cyhoedd i ddod i'r ddarlith hon.

LLONGYFARCHIADAU ...... (O'R WYL GERDD DANT)... I Pat Griffiths ar gael y wobr gyntaf ar adrodd i gyfeiliant telyn (Mona Meirion).

I Ruth Hills, o Ysgol Gyfun Llanhari, am gael y wobr gyntaf ar yr unawd telyn dan 12 oed.

I Barti Cerdd Dant Ysgol Gyfun Llanhari ar ddod yn ail yn eu cystadlueaeth.

I Betsan Powys a Mari Emlyn am ddod yn drydydd ar adrodd i gyfeiliant.

I Barti Cyd-adrodd Ysgol Gyfun Llanhari ar ddod yn drydydd.

* *

## GWERTHU'R CRWYS

Gan fod Ebenezer a Bethel yn denu'r fath sylw wrth gael eu dymchwel mae capel y Crwys am hawlio ychydig o'r cyhoeddusrwydd. Cyn bo hir fe welir arwydd "Ar Werth" ar furiau'r capel hwn.

---

JAC Y JYNGL
Y Panto Cymraeg — yma yng Nghaerdydd, Theatr Sherman.
Ionawr 24 - 28.

## GWELLA'N DDA

Mae ei llu cyfeillion yn falch o ddeall fod Miss Ann Rosser, Lakeside, yn gwella ar ôl anhwylder yn yr ysbyty'n ddiweddar. Mae ar hyn o bryd yn gwella'n llwyr yn ei hen gartre — gyda'i rhieni yn Lôn las, Abertawe.

## CROESO I GAERDYDD

Mae'r Dinesydd bob amser yn hapus i groesawu teulu Cymraeg yn ôl i Gaerdydd. Ein dymuniadau gorau, felly, i'r Parchedig a Mrs. Eira Harries sydd wedi dod i fyw'n ddiweddar i'r Gelli, Heol Crystalwood. Cyn dod i Gaerdydd, roedd Y Parchedig Denzil Harries yn weinidog ar gapeli Walham Green, Sutton, Hammersmith ac Ealimg Green yn Llundain. Mae'r ddau yn enedigol o Lwynhendy, ger Llanelli.

## DEWCH I ACTIO

Myfyrwyr colegau prifysgol Cymru oedd yn perfformio yn Theatr y Sherman ar y nos Sul, y 12fed o Dachwedd. Y tri choleg a ymgodymai yng nghystadleuaeth ysgrifennu ac actio drama fer oedd Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd. Roedd yn dda gennym weld nifer o blant y ddinas yn cymryd rhannau blaenllaw yn y dramâu hyn. Aberystwyth ddaeth yn fuddugol gyda drama Myrddin ap Dafydd.

# O'R STEDDFOD

*Ddechrau mis Hydref yn y Pwyllgor Gwaith*
*Daeth newydd a suddodd i'n calon fel saeth,*
*Cyhoeddodd Idris yn ddi-wên*
*Nad oedd gennym ni bellach Babell Lên.*
*"Mae 'sgubor Wrecsam," ebe yntau'n fwyn*
*"Yn rhy wael i'w symud i borfa Pentwyn".*
*"Beth wnawn ni?" medd Ray, ein hysgrifennydd,*
*"Cael bob o wigwam", ebe'r Cadeirydd.*
*A chwarddodd pawb yn aflywodraethus.*
*Onid ydym fel cenedl yn dosturiaethus!*
*"Na phoenwch", ebe swyddog o'r uchel fataliwn —*
*"Bu Wrecsam mewn peryg o fod heb Bafiliwn".*
*"Ond cymerwch gysur," mynte'r proffwyd Idris,*
*"Mae'r Cyngor yn studio'r broblem astrus.*
*Felly fe gawn ond dal yn deit*
*Eu hateb rywbryd yn sefnti eit!"*

*A ninnau'n ddi-Sgubor (Ow!'r fath sioc)*
*Mae gennym yn barod bedigri stoc.*
*Bydd Hywel Teifi — y llamsachus ebol*
*Yn gweryru'n hwyliog drwy'r Ddarlith Flynyddol.*
*Ag o stabal Sain Ffagan daw'r gweision gweithgar*
*I'n porthi â'u Traddodiadau Llafar.*
*Bydd Elvet Thomas a'i borthmyn barddas*
*Yn rhoi i ni bryd o "lenyddiaeth y ddinas".*
*Ond Norah Isaac, y ddigymar fun,*
*Gaiff odro gyntaf, fore Llun.*
*Wrth agor y sioe am un-ar-ddeg*
*(Gobeithio y bydd hi'n fore teg)*
*A mae'n siwr y cawn gyda'r forwyn Norah*
*Ddidwyll laeth y gair ar ei ora'.*
*Dyna rai o'r cynlluniau sy ar y gweill*
*Cawch glywed eto am y lleill.*

*Felly'n ddi-'sgubor, a braidd ar frys*
*Yr Eiddoch yn Gywir — Ifor Rees.*

# LLOGI'R PAFILIWN

**Am y tro cyntaf erioed mae pafiliwn yr Eisteddfod i'w osod am rai wythnosau yn ystod y flwyddyn nesaf. Erbyn hynny fe fydd y seddau i mewn a'r trydan a'r gwasanaethau eraill wedi eu gosod a'r lle felly yn addas iawn ar gyfer cyngerdd neu gymanfa neu ŵyl gerddorol. Mae'r BBC eisoes wedi dweud eu bod yn gobeithio llogi'r pafiliwn o'r 4ydd tan y 18fed o Fehefin. O hynny tan 16fed o Orffennaf fe fydd yr adeilad ar gael i unrhyw gymdeithas arall sy'n dymuno ei ddefnyddio ar delerau i'w trafod gyda Phwyllgor yr Eisteddfod.**

Ers dwy flynedd bellach mae cymdeithasau wedi bod yn rhentu'r pafiliwn ar gyfer cyngherddau yn hwyr y nos *yn ystod* wythnos yr eisteddfod. Clwb Rygbi Cymry Caerdydd oedd y cyntaf i arloesi yn y maes yma. Dangosodd y clwb fentr arbennig yn llogi'r pafiliwn am £1250 o bunnau i gynnal noson lawen fawr yn Eisteddfod Aberteifi — a bu'r arbrawf yn llwyddiant eithriadol. Dilynwyd ei esiampl gan gymdeithasau eraill yn Eisteddfodau Aberteifi a Wrecsam, a dangoswyd bod modd gwneud elw sylweddol o gael defnyddio 'r pafiliwn. Eisoes mae pum cais mewn llaw am gael defnyddio'r pafiliwn yn hwyr y nos yn Eisteddfod Caerdydd.

Mae'r pafiliwn yn ddigon mawr i roi lle i 5,000 o bobl! Felly os gwyddoch chi am ryw gymdeithas fyddai'n hoffi cael ei fenthyg, dywedwch wrthynt am gysylltu â Threfnydd yr Eisteddfod. Fe fyddwch yn gwneud cymwynas â nhw; ac â'r Eisteddfod!




*Miss Gwyneth Lewis, o Ysgol Gyfun Rhydfelen, yn cyflwyno siec o £1:28 i Drefnydd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, Mr Idris Evans. Mae Gwyneth yn un o brif ddisgyblion yr ysgol ac arian oedd hwn a gasglwyd gan ddisgyblion Ysgol Rhydfelen o'u harian poced. Bydd y rhan fwyaf o'r arian yn mynd tuag at y gwobrau ym mhrif gystadleuaeth y corau plant dan 19 oed.*



Mae crochendy Boncath wedi dechrau cynhyrchu platiau arbennig ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978.

Dim ond nifer cyfyngedig o'r platiau sydd i'w cynhyrchu ac maent i gael eu gwerthu am £15 yr un. Mae'r plat yn addas i'w ddangos yn unigol, neu fel pâr gyda'r plat arbennig a gynhyrchwyd i goffau Eisteddfod y Dathlu yn Aberteifi ym 1976. Gellir archebu'r plat o Swyddfa'r Eisteddfod, 24 Windsor Place, Caerdydd.

# TUDALEN Y DYSGWYR

GWAHODDIAD

*Rydym ni yng Nghapel Heol y Crwys am eich gwahodd chi'n gynnes iawn i ddosbarth Ysgol Sul.*

*Fe fydd hyn yn rhoi.*

*CYFLE*

*I groesi'r bont mewn gwirionedd i ddodi siarad Cymraeg â Chymru Cymraeg BOB wythnos.*
*I ymuno yn y gymdeithas naturiol Gymraeg yng Nghaerdydd.*
*I ddarllen y Beibl.*
*I ddeall pregeth sy'n anodd ond yn bosibl iawn gyda help geirfa.*
*I drafod a siarad.*
*I siarad a thrafod!!*

*Mae'r dosbarth bob PRYNHAWN Sul o 2.30 i 3.30 a rydych chi'n gallu dod â'r wraig, a'r plant gyda chi. Does dim llawer ohonoch wedi mentro arni ELENI eto ond dydi hi byth yn rhy hwyr. Beth am ddod y Sul nesaf. Cewch groeso!*

## PAPUR I'R DYSGWYR

*Dyna braf oedd gweld 'Yr Agoriad' yn ail-ymddangos ar ei newydd wedd yn ddiweddar. Da iawn wir — gobeithio y bydd pob dosbarth Cymraeg yn y ddinas yn archebu copiau yn gyson. Fe fydd o help mawr i'r Dysgwyr.*

## GWEITHGAREDDAU

*Mae llawer o bethau diddorol wedi cymryd lle yn ddiweddar — roedd 'hwyl yr wyl' yn llwyddiant mawr yn y Ganolfan. Cafodd y Dysgwyr gyfle da i geisio deall tipyn am yr eisteddfodd. Uchafbwynt y prynhawn yn sicr oedd gwers fendigedig gan W.J.Jones drwy gyfrwng sleidiau.*

*Cafwyd noson ddiddorol o ganu ac o ddawnsio a chlocsio yng Nghlwb y Marconi yn Larnog ar nos Iau, Tachwedd, 17eg. Roedd tua 70 o Ddysgwyr a ffrindiau wedi dod yno i fwynhau noson. Gwnaed elw da at achos y Dysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolch yn arbennig i Randal Isaac a lwyddodd i dywys pobl digon anhebyg drwy ddawns mor gymhleth â 'Dawns y Fasged'.*

## LLANGRANNOG

*Trefnwyd Cwrs pen-wythnos teuluol yn Llangrannog ar yr 11 eg o Dachwedd. Hyfryd oedd gweld plant bach yn dysgu gyda'u rhieni, ac yn aml iawn yn well na'u rhieni! Uchafbwynt y pen — wythnos? Wel, canu 'Penblwydd Happus' i Bethan fach a oedd yn un oed ar ddydd Sadwrn y cwrs. Tybed a oes rhywun iau wedi dechrau dysgu Cymraeg ar gwrs ail — iaith yn Llangrannog o'r blaen?*

## GWYLIAU

*Mae cefnogaeth wych i'r cyrsiau pen-wythnos eleni eto. Roedd tua 40 ar gwrs y Fenni yn ddiweddar. Os ydych chi yn meddwl am drefnu gwyliau — beth am ystyried un o'r cyrsiau yma yn yr haf?*

*Coleg San Dunwyd = 21-28 Gorffennaf.*
*Ysgol Haf y Barri = 29 Gorff - 14 Awst.*
*Tŷ'r Dyffryn = 19 Awst - 26 Awst.*


## Y GANOLFAN

*Mae'n hyfryd gweld cymaint o oedolion brwd yn dysgu'r iaith yng Nghanolfan yr Urdd eleni eto. Dydy'r lle ddim yn ddelfrydol o bell ffordd i gynnal dosbarthiadau ond mae pobl yn dal i ddylifo yno. Braf yw gweld fod yno ddwy ystafell ddosbarth ar gyfer y dysgwyr. Daliwch ati! Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Gymraeg Dda i bawb sy'n gwneud eu gorau i siarad Cymraeg bob amser.*

*JOHN ALBERT.*


*Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru.*

# CROESAIR I BAWB



## AR DRAWS

1. Wyt afon syth ! (6)
4. Edrychodd yn y drych a'i addoli (5)
6. Fe wn am eog adnabyddus. (5)
7. Mae '6' yma heb ei wn. yn Ffrainc a'r dre newydd. (5)
9. Dewin o Sblott ! (2)
10. Sir Aberteifi'n llythrennol oflaen y bunt - Dyna wael. (3)
11. Glynne - Pa le mae'r wlad? (5)
14. Pe gwn yr atebi 27, 14 a 2 (6)
18. Cysgais wrth ytan yn ddioglyd (4)
19. Swynol li a '16' (4)
21. Er apel wan, gwnaed arian (4)
22. Er yn ddiwedd gwarthus, mae'n werthfawr. (3)
24. Erfyn i dorri'r don. (2)
25. Newidiwch bunt bob bore. (3)
27. Golau stryd ar ben coeden mi glywaf. (5)
28. Esgid Saunders Lewis heb geiniog - i'w bwyta! (6)
29. Na threiglia 22 (3)



## I LAWR

1. Y goeden na phyla amser? (4)
2. Arwain 14 o fab y brenin. (7)
3. Aeth yr ysgrifennydd yn ei ôl am addysg. (5)
4. Deisyfu am lysieuyn mi glywaf. (5)
5. A'i Saesneg yw'n penglin? (2)
8. O! Gwartheg, heb bysgodyn - dyna gywilydd. (5)
12. Ew aur yn y caeau. (5)
13. Fi yw'r cyntaf - yn ôl ac ymlaen. (3)
15. Symudodd i nol ei lemoned.
16. O hon i hon medd y llyfr. (1,2,1,1) (3)
17. Eli a thraed gwlyb! (4)
20. Bydd ddistaw ddechrau blwyddyn. (5)
22. Cymer ddwr, halen a ___ (3)
23. Tanseilio'r duwiol heb gytuno (4)
26. Dafydd neu Ddafydd arall. (2)
27. Collodd y gog ei ffordd yn 14 wrth ddilyn rhywbeth (2)

# O mor drwm


**Mae Omor Lluddedig, llywydd mudiad Afler wedi datgan ei fwriad o gadw draw o bob eisteddfod genedlaethol o hyn allan "hyd nes y rhoddir chwarae teg i'r iaith Saesneg — fy mamiaith innau a phedwar ugain y cant o'r genedl."**

Dadla Lluddedig y dylai'r Ŵyl, os am hawlio'r ansoddair "cenedlaethol" yn rhan o'i theitl, adlewyrchu'n gymharol sefyllfa ieithyddol y wlad. "Gwelwyd gwendidau'r eisteddfod yn glir yn Wrecsam," meddai. "I bobl cylch Wrecsam yr oedd yr wyl yn gwbl annealladwy ac o'r herwydd ni fedrent gymryd unrhyw ran ynddi. Mae wedi mynd yn jambori ieithyddol cwbl ddiystyr i drwch y boblogaeth. At hynny, mae'n debyg bod y criw sy'n ei rhedeg hi yn disgwyl i ni'r Saeson dalu andros o grant at eu pranciau nhw o hyn ymlaen."

Cred Lluddedig y dylid rhannu Cymru yn ddwy — "Y Môr o Seisnigrwydd" a'r "Gweddill." Gobeithia y bydd i werin y Môr gadw ei hiaith a'i thraddodiad (Nid oes ganddo bwt o ots am y Gweddill) "Byddaf wrth fy modd yn crwydro strydoedd Casnewydd neu Aberhonddu, lle mae fy iaith fy hun yn cael ei harfer yn gyfrwng pob dydd gan y werin, ym mhob agwedd o'i bywyd. Ar y llaw arall, mae'n gas gen i lefydd fel Llanuwchlyn a Thregaron."

Ystyrir Lluddedig yn gymeriad rhyfedd am ei farn ddi-gyfaddawd. Ymddengys mai dyma ganu'n iach iddo o faes y brifwyl. Faint o amser fydd ei angen arnom ni i ddod dros yr ergyd greulon hon?


## Wenallt — y cwmni arobryn



Ymlaciwch yn un o'n cerbydau moethus 22-53 sedd

**CERBYDAU WENALLT**

(Perchennog J.M. CROOKES)

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

(Gwasanaeth 24 awr)

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.


# colofn *

## sbectol SIAN

TAN HENO

Son am embaras! Roedd blys prynu crys nos newydd ar gyfer y Gaeaf arnaf fi, wel ar gyfer fy anifyrsari a dweud y gwir. Clywais am grysau nos gwefreiddiol Mistar Urdd, a roedd yn rhaid i mi gael un. Fel rheol pan fydda i'n prynu fy 'ods and ends' ym Marcs, at y 'mediums' fydda i'n anelu bob amser, ond tro yma dyma gael crys gwyn a gwyrdd smart gyda label bach 'M' wedi'i bwytho'n ofalus ar y gwddf. Fedrwn i ddim tynnu fy nillad ddigon cyflym y noson honno! Ond och, roedd o, wel, braidd yn fawr.

"Green godess myn diawl, lle mae'r tân?" gofynnodd y gŵr yn ei ddyblau'n chwerthin. Edrychais ar y bag a sylweddolais fod M (yn naturiol) yn golygu "MAWR"! Cofiwch felly pan fyddwch yn prynu'ch crys chi — "Nid medium popeth M". "C" amdani y tro nesa! Diolch Mistar Urdd am yr hwyl — a'r babell!

TÂN MAWR

Beth 'da chi'n feddwl am y dynion tân yn mynd ar streic, a'r Llywodraeth yn gofyn i ni gymryd gofal wrth streicio (matsus ac ati)? Trueni na fuasai'r Swyddfa Gartref yn defnyddio'r *Dinesydd* fel cyfrwng i hysbysu'r cyfarwyddiadau ar sut i leihau peryglon tân (fel yr un a ymddangosodd yn "y Cymro") Mae'n syndod beth yw dylanwad streic o'r fath. Rwy'n llawer mwy gwyliadwryus nad yw'r plwg yn cael ei adael yn y wal, ac yn ôl y lleihad yn y galwadau 999 mae'n amlwg nad fi yw'r unig un sy'n cymryd mwy o ofal. Gobeithio y byddwch chi, fel fi, (a Rhiannon) yn cymryd PWYLL.

TAN DRAED

Un cyfarwyddyd ychwanegol ar sut i arbed tân sydd gen i. Gofynnwch i'r Clwb Rygbi drefnu Twmpath Dawns ichi. Taflwyd llond bwced o ddŵr oer ar frwdfrydedd y dysgwyr ac ar ymdrechion eu hathrawon mewn twmpath a drefnwyd gan y clwb yn ddiweddar. Pam? Ia 'da chi'n iawn... Roedd bois y bêl hir yn llawer rhy barod i alw yn Saeseng. Dipyn o farn dans oedd y cyfan mae arna i ofn.

TAN DWR

Wrth son am dân a dŵr mae TANDOOR (da te) wedi agor ers tro yn "City Road". DIWAN I AM ydy enw'r lle a fedrwch chi mo'i fethu — mae'r golau'n mynd rownd a rownd tu allan (yn ddigon i wneud i'ch llygad ddyfrio *cyn* meddwl am y cyri). SAIN siwr os ydy perchenog DIWAN yn frodor o Taiwan neu Tai Gwynedd!

TAN 'DOLIG

Clywyd eisioes fod y siop deganau "The Playtime Shop" wedi newid dwylo ac mai'r dysgwr pereneal Terry O'Neal yw'r perchenog newydd. Yn barod mae recordiau a chardiau cyfarchion Cymraeg yn y siop, ac mae gêm y 'Steddfod yn hawlio lle blaenllaw yn ei ffenest. Felly beth am alw yn 140 Heol Crwys am eich anrhegion Nadolig?

TAN OED

Darllenais am y bwriad o sefydlu cwrs trafod yn y Dinesydd diwethaf. Teimlwn y byddai athrawon yn syrthio i'r categori o "bobl sy'n awyddus i drin a thrafod llenyddiaeth Gymraeg ar gyfer plant". Pam felly y trefnwyd y cwrs yn ystod oriau ysgol?

TAN GWYLLT

—Ac yn ar awr y diweddaraf o gasgliad wardrob gaeaf Roial Miss 'Steddfridge' (cymeradwyaeth fyddarol) — cot aeaf steilish yw hon, sef 'turncoat'. Ar yr olwg gyntaf cot frethyn Gymreig digon cyffredin yw hi, ond fel y dangosir gan Walterre y model gallwch ei throi tu'ch wyneb ac mewn chwinciad guddio pob rhithyn o Gymreictod i sicrhau ymdoddiad llwyr i sefydliadau Seisnig ein prifddinas — Cot '78 yn sicr. — Ŵyr neb eto beth yw pris y got arbennig hon.

TAN TRO NESA — HWYL!

# Rhai o Lyfrau'r Ŵyl

## *Cyfres i'r Plant*

Os am ddal diddordeb a dychymyg plentyn, yna llyfr am anifeiliaid amdani bob tro. Dyna'r union beth a sylweddolir gan Wasg y Dref Wen wrth iddynt gyhoeddi'r gyfres natur hon, sef 'Cyfres y Seren'.

Mae'r gyfres yn cynnwys pedwar llyfryn clawr meddal (un ar bymtheg tudalen) am 'Sgut y Sgyfarnog', 'Rhun y Rheinoseros', 'Delyth a Dafydd y Draenogod' a 'Clip y Carlwm'. Pwrpas y llyfrau yw rhoi ffeithiau bras am yr anifeiliaid a chyfleu rhai o ryfeddodau byd natur.

Darparwyd y gyfres ar gyfer dysgwyr ifanc a Chymry Cymraeg. Fel llyfrau'r Wasg hon i gyd mae i'r llyfrau gloriau atyniadol. Mae'r deunydd yn ddigon diddorol heb fod yn orffeithiol. Print bras, hawdd ei ddarllen ac iaith syml iawn sydd ynddynt. A dweud y gwir, ychydig a gynnigir ynddynt i ehangu geirfa'r Cymry Cymraeg. Braidd yn ddiflas yw'r iaith ar adegau — fe sylwir ar y nifer fawr o frawddegau sy'n dechrau â "Mae". Diflas yw hyn i'r Cymry Cymraeg yn ddiau ond mae'n addas ar gyfer dysgwyr. Dyma enghraifft o'r llyfr ar y Carlwm:

*Mae Clip yn heliwr da.*
*Mae e'n codi ei ben i fyny.*
*Mae e'n gwynto ysglyfaeth.*
*Mae rhywbeth yn symud yn y glaswellt...*


Serch hynny ceir yma rai cyffyrddiadau diddorol a disgrifiadau twt. Dyma enghraifft a hoffais o'r llyfr am y draenog:

*Yn ystod y nos mae nhw'n chwarae gyda'i gilydd.*
*Weithiau mae nhw'n paru.*
A chanlyniad y chwarae?
*Mae draenogod bach newydd ym mol Delyth.*

Mae hyn siwr o godi llawer i gwestiwn pellach!

Felly argymhellaf y llyfrau fel rhai defnyddiol iawn yng nghornel natur y dysgwr.

GWASG Y DREF WEN — Cyfres y Seren — 60c yr un.




RECORDIAU NEWYDD

Pedair record gan ddarllenwyr *Y Dinesydd* ar werth yn awr:-

SAIN 1105D – CYMANFA CÔR EISTEDDFOD CAERDYDD o dan arweiniad Alun Guy.

SAIN 1101M – SHWN – "Ar Garlam".

SAIN 1076D – "MERÊD" – 28 o ganeuon gwerin amrywiol gan Meredydd Evans.

TRF 205 – "LLEISIAU RHYDFELEN" – Talentau amrywiol disgyblion Rhydfelen.

*Hefyd recordiau newydd gan Dafydd Iwan, Mynediad Am Ddim, Hogia'r Wyddfa, Hergest a llawer, llawer mwy!*

sain

Sain (Recordiau) Cyf Ffordd Llanllyfni Penygroes Caernarfon Gwynedd LL54 6DB Ffôn Penygroes (STD 028 681) 732


## 'CHOELIA TI BYTH !



**Dyma lyfr sy'n ymhyfrydu mewn bod yn ddiwerth! "Llyfr cyfa o wybodaeth diwerth!" medd y clawr. Ond nid yw'r honiad yn hollol wir. I mi mae'n hynod o ddefnyddiol gwybod fod 'cig y wningen gyffredin mor faethlon â phedwar pwys a hanner o gig eidion' ac fe gefais ysgytwad o ddarllen fod 'cân newydd yn ysgubo ysolion San Fransisco i blant 6-7 oed.' Cenir hi ar y don "Frere Jacques":**

*Mariwana,Mariwana,L.S.D.,L.S.D.,*
*Mae gwyddonwyr yn i neud o*
*Athrawon yn i gymryd o*
*Pam ddim ni? Pam ddim ni?*

Ond ar y cyfan rhaid cytuno mai cwbl ddiwerth yw'r rhan fwyaf o'r pytiau a geir yma ac o ganlyniad mae'n lyfr difyr dros ben! Ar ôl bwyta gormod ddydd Nadolig ac agor fy anrhegion i gyd, a thra bo'r teulu'n cysgu'n fodlon wrth y tân, rwy'n bwriadu troi at y llyfr hwn unwaith eto i bori — ac rwy'n awgrymu eich bod chi'n gwneud yr un modd. Dyma ragflas o beth a gewch:

'Mae dynion ifanc yn meddwl am ryw unwaith pob chwarter awr.' (Dim ond dynion?)

'Mae'n arfer gan gauchos yr Ariannin roi tameidiau o gig eidion o dan eu cyfrwyau; ar ôl diwrnod caled o farchogaeth mae'r cig yn dyner ar ôl ei guro gan ben ôl y marchog ac wedi ei goginio gan y gwres.' (Syniad newydd i'r ymgyrch "Save it")

'Mae'n costio mwy i'r Llywodraeth i gadw bachgen mewn ysgol i blant drwg nac a fuasai i'w yrru i Eton.'

'Pwysodd meddyg Swedaidd rai o'i gleifion cyn ac ar ôl marw a darganfyddodd fod enaid dyn yn pwyso 21 gram.'

'Gwerthwyd gwaith mwyaf gwerthfawr yr arlunydd Ad Reinhardt, sef canfas ddu blaen bum troedfedd sgwar, am £24,000 yn Sotheby's ym 1974.' (Cyngor y Celfyddydau — dalier sylw!)

# GWIN A DIODYDD ERAILL




**Daw cyfrol I. D. Hooson "Y Gwin a Cherddi Eraill" i'r meddwl yn syth o weld teitl y llyfryn bach hwn ac nid yw hwnnw'n sen o gwbl ar y gyfrol barddoniaeth oherwydd y mae hwn hefyd yn llyfr a rydd ddifyrrwch a phleser mawr i'r darllenydd, ynghyd â gwybodaeth — *rhai* defnyddiol ac eraill ychydig yn *llai* defnyddiol!**

Mae'r adran a elwir 'Ychydig o ffeithiau' yn hynod o ddifyr. Fe rydd ambell bwt o wybodaeth a all fod yn ddefnyddiol iawn, er enghraifft — sheri yw'r unig apertiff nad effeithir arno gan faco, ac nid yw fodca'n arogli ar yr anadl. Hefyd yn yr adran yma ceir gwybodaeth i ogleisio'r meddwl... A wyddech chi eu bod nhw'n arfer gwneud wisgi yn Frongoch, neu fod y Siapaneaid wedi ceisio mewnforio dŵr o'r Alban er mwyn ceisio efelychu blas di-guro wisgi'r wlad honno?

Wedyn fe drown at wneud gwin — peth sy'n dod yn fwy poblogaidd o hyd, a phris gwin yn y siopau yn mynd ymhell o gyrraedd llawer ohonom. Wedi i ni feistroli'r termau a'r technegau angenrheidiol fe egyr posibiliadau di-ddiwedd o'n blaen! Gallwn wneud gwinoedd o ffrwythau ecsotig fel ceirios neu eirin gwlanog, neu rywbeth mor ddistadl â sbarion te neu daten. Gall yr yfwr o fri wneud ei gwrw neu ei seidr ei hun, y llymeitiwr ei wirodlyn neu ei goctel; gallwn i gyd greu argraff ar ein gwesteion drwy gynnig pwnsh poeth a blasus (a chryf) mewn parti, neu, ar achlysur mwy dethol, beth am 'Olwyth Cig Eidion' neu 'Gellyg mewn Gwin.''

Un gair bach o ynglyn â chywirdeb iaith. I mi mae geiriau fel 'Myshrwms', sparkling' a 'bitrwt' yn gwbl ddi-anghenraid gan fod geiriau derbyniol a naturiol yn bodoli yn y Gymraeg — sef 'madarch', 'pefriol' a 'betys coch'. Ar y llaw arall mae 'liqueur' fel ag y mae yn air llawer mwy swynol na 'licor' ac yn dderbyniol mewn unrhyw iaith 'ddyliwn i.

Ond yn wir rwy'n falch i'r llyfr hwn ddod i law, yn enwedig cyn y Nadolig — fe ddaw'n ddefnyddiol dros ben, a dim ond 60c yw ei bris.

*"Gwin a diodydd eraill" — Elsi Wyn Jones. Cyhoeddiadau Mei. Pris 60c.*

*"Choelia Ti Byth!" Cyfieithiad o lyfr gan Deirdre D. Saunders, Dick Girling, Derek Davies a Rick Saunders. Cyhoeddiadau Mei. Pris 90c.*



# Mwy i'r Hosan

## *Gwasg y Dref Wen*

*HANES Y NISSE — £1.60*

* * *

*A WYDDOCH CHI SUT MAE'CH CORFF YN GWEITHIO? — £2.95*

* * *

*GOLWG GYNTAF AR Y DADENI — £1.35*

* * *

*GOLWG GYNTAF AR Y CHWYLDRO DIWYDIANNOL — £1.35*


# NADOLIG LLAWEN I'N GWYLWYR OLL YN YSTOD GŴYL Y GENI 1977 — A'R FLWYDDYN NEWYDD

**Yn dechrau Rhagfyr 20fed**

Blas yr Ŵyl ar ein rhaglenni plant — dwy awr o raglenni yn ystod wythnos y Nadolig.

**Rhagfyr 20fed: 10.30p.m.**

Rhaglen olaf cyfres Gair Ar Gerdd Dic Jones yn cyflwyno gair ar gerdd am y Nadolig. Meinir Lloyd yn canu a pherfformiad o'r Plygain gan Driawd Elfed Lewis.


**Rhagfyr 24ain: 5.45p.m.**

CERDYN NADOLIG — Darlleniadau o'r Beibl gan Wyn Thomas a Dyfan Roberts a charolau gan Gantorion Cynwrig.

**DYDD NADOLIG 11.30a.m.**

Rhaglen amrywiol o adloniant i'r plant dedwyddwch a hapusrwydd — Hosan Hwyr.

Am 11.30p.m. 'Celebration' gyda Geraint Evans, Ryland Davies, Côr Treorci, Côr Poliffonic Caerdydd ac Aros Mae — gwledd o gân.



**Rhagfyr 26ain: 6.00p.m.**

Y Tregampau olaf — ysbryd y Nadolig yn y rhaglen 45 munud hon.

**Rhagfyr 31ain: 5.15p.m.**

Dychweliad Siôn a Siân

**Ionawr 3ydd: 10.30p.m.**

Y Flwyddyn — edrychwn ar Gymru drwy gyfrwng y ganolfan ddiwylliannol newydd yng Nghaernarfon — yng nghanol Cadernid Gwynedd — Canolfan Tanybont. Hogiau'r Wyddfa yn canu (Y Gwanwyn a Sefwn yn y Bwlch) I.B. Griffith a'i ffraethineb a doniau eraill.

**Yn dechrau Ionawr 7fed 1978 Gŵyl Gorawl Caerdydd — manylion llawn gan HTV Cymru o'r Ganolfan Deledu, Caerdydd.**

HTV CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu, Caerdydd.

# Y Mudiad Meithrin

**Digon cymysglyd yw fy nheimladau wrth fynd ati i sgwennu pwt i'r *Dinesydd* y mis hwn. Mae hi'n tynnu at ddwy flynedd er pan ymddangosodd colofn Mudiad Ysgolion Meithrin am y tro cyntaf yn y *Dinesydd*, ac mae sgwennu'r llith misol wedi bod yn un o'r profiadau mwya dymunol i mi fel Swyddog Datblygu yn y Sir. Y llith hwn yw'r anodda i'w sgwennu. Beth a ddywedaf wrth gloi fy nhymor efo'r Mudiad?**

Bu'r ddwy flynedd ola yn eithriadol o ddifyr a phrysur. Wynebwyd llu o anawsterau, rhai wedi'u datrus ac eraill efo ni o hyd. Yr agoriad llygad mwya i mi oedd sylweddoli cymaint o newid sydd wedi digwydd yn y maes er pan arferai fy mhlant fy hun fynychu Ysgol Feithrin Heol y Crwys dros ddeng mlynedd yn ôl. Bryd hynny eithriad oedd derbyn plentyn o gartre lle nad oedd y ddau riant yn siarad Cymraeg. Yn wir, cofiaf i Bwyllgor Ysgol Feithrin y Crwys gyfarfod yn unswydd i drafod a ddylid derbyn plant oedd â rhiant yn ddi-Gymraeg. Mor wahanol yw hi heddiw.

Am flynyddoedd dau Gylch Meithrin Cymraeg oedd yng Nghaerdydd, sef Heol y Crwys a Rhiwbina, a'r ddau gylch yn rhai cwbl Gymraeg — heb broblem iaith. Mae'n galonogol iawn fod y fath ddatblygu wedi digwydd — heddiw mae 'na ddeg o Gylchoedd yng Nghaerdydd a phedwar cylch Mam a'i phlentyn. Ond — mae'r pris y mae'n rhaid inni dalu am hyn yn enfawr. Mae 'na broblemau iaith echrydus ym mhob un o'n cylchoedd.

Yr hyn sy'n digwydd yn aml yn y cylchoedd yw bod y cnewyllyn bach o blant o gartrefi Cymraeg yn mynd i'r Cylch Meithrin yn uniaith Gymraeg ond mewn byr amser maent yn dod adre wedi dysgu Saesneg. Pan fo athrawes athro (a phob clod iddynt am eu dycnwch) yn dangos cerdyn â llun coeden arno i'r plant ac yn gweiddi "coeden" a sibrwd "tree" — pa air mae'r Cymry bach yn ei ddysgu?

Mae'r broblem enbyd hon ar feddwl pob athro ac mae'n poeni rhieni Cymraeg. Mae Pwyllgor Sir y Mudiad yn ymboeni hefyd — sut mae cyfoethogi geirfa'r Cymry Cymraeg ochr yn ochr a chyflwyno ail iaith i'r di-Gymraeg, a hynny mewn rhyw ddwyawr yr wythnos?

Mae'r cyfrifoldeb sy ar ein Cylchoedd yn un difrifol. Y Mudiad sy'n cychwyn plant ar lwybr addysg ddwyieithog ac felly'n rhannol gyfrifol am safon yr iaith yn y dyfodol. Byddaf yn meddwl weithiau y buasem yn llwyddo'n well petae gennym yr adnoddau i gael Cylchoedd i'r Cymry Cymraeg a Chylchoedd i Ddysgwyr.

Gwell peidio cloi'r golofn hon yn y cywair tywyll ac anobeithiol yma. Diolch bod yna bobol sy'n gweld yr ochr obeithiol i'n dyfodol fel Cymry Cymraeg — pobl brwd a diflino fel Gwilym Roberts. Eleni mae Cylch Rhiwbeina'n dathlu ei deunawfed penblwyd a Gwilym fu Cylch Rhiwbeina o'r cychwyn. Llongyfarchiadau Rhiwbeina a diolch Gwilym am fod yn esiampl ac yn gydwybod i lawer ohonom.

Wrth gloi'r golofn am y mis carwn ddiolch i'r llu cyfeillion fu'n gefn i mi, yn athrawon a rhieni. Ni wn eto pwy fydd f'olynydd (peidied â digaloni wrth ddarllen y llith hwn) a dymunaf yn dda iddi — lles i'r Mudiad ac i'r Sir fydd cael rhywun newydd i'r swydd fydd yn gweld yr anawsterau a'r her o safbwynt gwahanol i mi.

SHÂN EMLYN

## Gŵyl Gorawl Caerdydd 1978

**1 DYDD SADWRN, 7fed IONAWR**
Eglwys Gadeiriol Dewi Sant 8.00p.m.
Cerddorfa'r Philharmonia
Arweinydd Neville Marriner
Côr Poliffonig Caerdydd
Via-Nova-Chor, Munich
Heather Harper
Delme Bryn Jones
Stafford Dean
Y Cread: Haydn
£3.00; £2.00

**2 DYDD SUL, 8fed IONAWR, Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, 8.00p.m.**
Via-Nova-Chor, Munich, Arweinydd Kurt Suttner
Cerddoriaeth grefyddol gan Diestler, Eccard, Kodály, Lassus, Mullech, Obrecht, Reger, Schütz, Strategein.
£1.25; 75p.

**3 DYDD MAWRTH, 10fed IONAWR, Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, 8.00p.m.**
Cerddorfa'r Philharmonia, Arweinydd George Guest
Côr Ysgol Uwchradd Caerdydd, Arweinydd Richard Jenkins
Côr Meibion Pontarddulais, Arweinydd Noel Davies
Haydn: Missa brevis Cherubini: Requiem
£2.00; £1.50

**4 DYDD MERCHER, 11eg IONAWR**
Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, 8.00p.m.
Côr Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth
Arweinydd Gareth Mitford Williams
Côr Ysgol Gyfun Llanhari
Arweinydd Ann Bunford
Cantorion Ieuanc Richard Williams
Arweinydd Richard Williams
Côr Meibion Pendyrus
Arweinydd Glynne Jones
£1.50; £1.00



**5 DYDD GWENER, 13eg IONAWR, Ystafelloedd Ymgynnull, Neuadd Y Ddinas, 8.00p.m.**
Lleisiau Siambr Cymru, Arweinydd Richard Elfyn Jones. Hoddinott: gwaith comisiwn (perfformiad cyntaf)
Cantorion Richard Williams, Arweinydd Richard Williams Swingle II
£2.00; £1.50; £1.00

**6 SADWRN 14eg IONAWR, Eglwys Gadeiriol Dewi Sant, 7.30p.m.**
Côr Poliffonig Caerdydd a Cherddorfa
Arweinydd Simon Johnson, Barbara Schlick, Doreen Walker, Martyn Hill, David Thomas.
Bach: Offeren yn B leiaf
£2.50; £1.50

*Sefydlwyd a threfnir yr ŵyl gan HTV Cymru a chôr Poliffonig Caerdydd.*
*Tocynnau a manylion gan J. Merfyn Williams, Argoed, Craig Penllin, Y Bontfaen. Ffôn 3623.*

# O'r Ganolfan

Anrheg gwreiddiol iawn i'r ganolfan gan Alan Williams, un o ddysgwyr y ganolfan, oedd soffa wedi iddo'i gwneud ei hun, ac wrth ei gwerthu, cafodd y ganolfan gyfraniad arannol hael. Diolch yn fawr iddo.

ADRAN DOSBARTH CAERDYDD. Unwaith bob pythefnos mae dysgwyr o ysgolion cynradd Caerdydd yn cyfarfod yn y Ganolfan. Ceir amrywiaeth o weithgareddau. Eisioes cafwyd twmpath, helfa drysor, a noson tân gwyllt, gyda dros 60 o blant yn cymryd rhan. I ddod yn y dyfodol mae ffilm yr Urdd, ffair, ffug eisteddfod, a llu o bethau eraill.

YR UWCH-ADRAN. Bob nos Lun 0 6 i 8 o'r gloch, mae'r uwch-adran yn mwynhau cyfnod llewyrchus iawn. Yn ddiweddar cafwyd noson o grochenwaith a coginio, gyda rhai yn gweithio gyda clai o dan ofal Cen Williams, Cafwyd ymdrech ddewr gan Siân Piper yn y gegin i wneud afalau toffi.

YR AELWYD. Mae'r Aelwyd hefyd yn mwynhau cyfnod gwell yn ei hanes, ar ôl trafferthion gyda rhai pobl ifanc yn defnyddio'r Aelwyd fel esgus i fynd i yfed i'r tafarnau lleol. Canlyniad hyn oedd rhoi enw drwg i'r Aelwyd, ac felly 'roedd llawer o rieni yn cadw eu plant draw. Gyda chydweithrediad yr heddlu, y tafarnwyr, a rhai athrawon, mae'r broblem wedi lleihau, ond mae'n rhaid wrth mwy o gefnogaeth oddiwrth y rhieni. Drwg o beth fyddai gweld aelod o'r Aelwyd yn y llys am ddiota o dan oed, ond os mai dyma'r ateb, yna mae'n RHAID gweithredu.

Y COR. Yn ddiweddar cynhaliwyd cyngerdd gan y côr yng Nghasnewydd i Ferched y Wawr. Yn dilyn llwyddiant y cyngerdd mae ymholiadau yn dod i law am fwy o gyngherddau, a mae hyn yn sicr o ennyn mwy fyth o ddiddordeb ymysg yr aelodau. Fel rhan o wythnos dyngarol yr Urdd mae parti o'r ganolfan yn mynd draw i ysbyty'r Ely i ddiddori rhai o'r cleifion.

Cyn y Nadolig mae'r côr am fynd draw i Heol y Frenhines i ganu carolau ac i gasglu arian i'r Ganolfan.

YR ADEILAD. Mae'r gwaith o ehangu ystafelloed yn y neuadd waelod bron wedi ei gwblhau. Mae'r gwaith adeiladu ar ben, ac o dan ofal Mr. Dafydd Prys, un o athrawon y Ganolfan, mae'r gwaith peintio yn mynd yn ei flaen yn hwylus iawn. Y cwbl fydd eisiau wedyn fydd carped, felly os oes gennych garped sbar, gadewch i ni wybod. Fe ddefnyddir yr ystafelloedd ar gyfer y dysgwyr a phwyllgorau bychain.

COFFI. Cofiwch alw am baned — o 7.30 hyd 9.00 — a sgwrs. Hefyd os hoffech roi help gwirfoddol yn y bar coffi mae digon o'ch hangen.



# Pwy fyddai'n meddwl?

**Dyma'n fras rai ffigyrau diddorol a glywyd gan y Parch Byron Evans yn Minny Street, yng Nghyfarfod Cymdeithas y Beiblau. Tua 24% o boblogaeth yr ynys hon sy'n mynychu lle o addoliad ar y Sul. Tua 11% sy'n darllen y Beibl unwaith bob wythnos, y casgliad o hyn yw nad yw 13% o'r gynnulleidfa mewn capel sy'n gwrano ar bregeth yn y cywair meddwl iawn i wir werthfawrogi'r hyn maen nhw'n ei glywed. Sut mae hi arnom ni, tybed?!**

Os am ysbrydoliaeth i weld sut mae'r eglwys Gristnogol yn tyfu anogwyd ni i edrych tuag at *Tokio* o bob man. Does dim hawl i fewnforio Beiblau yno ond mae un orsaf radio trwy ryw ryfedd wyrth yn eu cyrraedd ac ar hwnnw clywir darllen storiau'r Beibl mor araf nes ei bod hi'n bosibl copio'r geiriau, a mae'r cynnydd mewn Cristnogion yn anhygoel.

* * *

Gwrthodwyd cais Pwyllgor Cyd-enwadol yr Ysgolion Sul am dri gweithiwr ar gyfer De-ddwyrain gan y Pwyllgor Creu Gwaith. Pe baem wedi gofyn am weithwyr i droi capel yn glwb, neu'n ganolfan cymdeithasol, am weithwyr dros yr Urdd, y Scowtiaid neu Fudiad yr Ysgolion Meithrin, popeth yn iawn ond am ein bod yn 'genedl aml-grefydd neu ddi-grefydd' doedd dim gobaith eu cael i'r maes. Roedd hi'n amlwg nad oedd dwy fil o flynyddoedd o Gristnogaeth yng Nghymru yn cyfrif dim i'r Swyddfa Creu Gwaith. Doedd neges ein Cristnogaeth ddim mymryn pwysicach na neges yr Hindu, Buddha, yr Agnostio a'r diduw. Dyna her i'n heglwysi!

* * *

Dyna ffresni meddwl a bywiogrwydd a welodd cnewyllyn o gynrychiolwyr capeli ac eglwysi Caerdydd yn ddiweddar pan ddaeth Miss Gwen Rees Roberts, Coleg y Bala, i Eglwys Dewi Sant. Y *pleser* o addoli oedd byrdwn ei chân, y *pleser* o gyd-gwrdd a Christnogion eraill yn Nhrefeca neu'n y Bala, a'r cyfle o barhau'r pleser hwnnw a gawn wrth addoli ar y Sul a ganol wythnos.


# YR URDD

**Bu'r tymor presennol yn eitha prysur i bawb sy'n ymwneud â'r Urdd yn Nosbarth Caerdydd. Yn ddiweddar daeth nifer o arweinwyr y Sir ynghŷd i'r Ganolfan Athrawon i wrando a gweld arweinwyr profiadol yn cyflwyno nifer o weithgareddau amrywiol. Teimlid yn gyffredinol fod y cwrs eleni wedi bod yn llwyddiant er y gellid gwella arno pe cedwid y garfan Uwchradd a Chynradd ar wahân gan fod natur y gwaith yn yr adrannau hyn yn gwbl wahanol.**

Yn y pwyllgor Dosbarth a gynhaliwyd ar Dachwedd y 9fed penderfynwyd mai doeth fyddai trefnu cwrs o'r fath ym Mis Medi 1978 ac fe wahoddwyd Mr. Zac Davies i drefnu rhaglen i'r ysgolion Uwchradd a Mr. Carwyn Davies i ofalu am yr ysgolion Cynradd. Yn y pwyllgor hwn hefyd sicrhawyd syddogion newydd — Mr. Zac Davies, Ysgol Uwchradd Llanrymni, fydd yr Is-Gadeirydd a Miss Rhian Owen, Ysgol y Tyllgoed fydd yr Is-Ysgrifennydd. Cadarnhawyd hefyd fod y trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig yn mynd rhagddynt yn hwylus ac y disgwylid cefnogaeth dda o'r adrannau i Gapel y Tabarnacl ar Rhagfyr 6.

Adroddwyd bod gweithgareddau'r ysgolion cynradd yn mynd ymlaen yn hwylus bob yn ail nos Lun a bod nifer dda o blant yn cymryd mantais o'r trefniant hwn. Cynhelir y parti Nadolig eleni ar Nos Lun Rhagfyr 19, am 4.30 yn y Ganolfan. Dyddiad y Pwyllgor nesaf — Ionawr 24, am 4.30.

# NEWYDDION CWM RHYMNI



HWB I'R STEDDFOD

Mae unarddeg o bwyllgorau ar hyd a lled Cwm Rhymni yn cynllwynio a chynllunio i godi arian at Eisteddfod Caerdydd. Mae'r gefnogaeth i waith y ffyddloniaid yn hynod o galonogol ac, er fod y Cwm yn gymharol bell o'r Brifddinas ac mewn sir wahanol, mae'n amlwg fod cefnogwyr yr Ŵyl yn ymwybodol o'u dyletswydd i gefnogi Caerdydd. Ymunodd nifer o'r ardaloedd yn y cynllun casglu o ddrws i ddrws gan sicrhau dros bum can punt i'r Gronfa ac, yn ddiweddar, derbyniwyd rhodd o £750 oddi wrth gyfrannwr sy'n dymuno aros yn ddi-enw.

Mae golwg fras ar rai o'r digwyddiadau diweddar yn dangos amrywiaeth diddorol — Gwin a Chaws yn Rhymni; Peint a Chân yn Gelligaer; Noson Goffi ym Margoed; Dylan Thomas yng Nghaerffili a 'Mynediad am Ddim' yn Nelson!

Mae llawer o'n trigolion heb gar, ac yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Oherwydd hyn mae peth anesmwythyd ynghylch safle'r Eisteddfod ac mae Pwyllgor Cronfa Cwm Rhymni wedi cysylltu â Chyngor Ardal y Cwm i geisio dwyn perswâd arno i redeg bysiau arbennig i'r maes.

FFAIR 'DOLIG

Erbyn hyn mae saith o Ysgolion Meithrin Cymraeg yng Nghaerffili a'r cylch a'r saith ohonynt yn dod at ei gilydd ar Ragfyr 3ydd i gynnal Ffair Nadolig yn Neuadd Eglwys Martin Sant. Bydd y cwbl yn cychwyn am hanner awr wedi dau.

SWOGS UCAC

Yng Nghyfarfod cyffredinol Cangen Cwm Rhymni o UCAC etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn — Cadeirydd, Moi Parri; Is-Gadeirydd, Alun Jones; Ysgrifennydd, Emlyn Jones, Ysgol Lewis i Fechgyn; Trysorydd, Sian Parry; ac Ysgrifennydd y Wasg, Eirlys Ashton. Ymysg y pynciau a drafodwyd mynegodd y cyfarfod gryn bryder ynglyn â pholisi'r Sir o sefydlu unedau Cymraeg yn lle ysgolion Cymraeg ar wahan, a phaswyd i bwyso ymhellach ar yr awdurdod i ailystyried ar fyrder.

YSGRIFENYDDES NEWYDD

Am resymau digon amlwg i'r sawl sy'n adnabod Heulwen Jones (Mainwaring gynt) mae hi wedi gorfod rhoi'r gorau i fod yn ysgrifenydd Pwyllgor Sir Gwent o'r Urdd. Pob hwyl iddi a'r teulu newydd! Yn cymryd ei lle yn y swydd bwysig hon mae Ann Evans, athrawes yn uned Gymraeg Ysgol Pengam, ond mae hi'n byw yng Nghaerdydd (Ffôn: Caerdydd 373822).

GWYN EI BYD

Croeso i Nerys White, newydd ddyfodiad i deulu Mike a Linda White, Caerffili. Roedd Linda yn athrawes yn Ysgol Ifor Bach, Senyhennydd.

CROESO I AP DAFYDD

Estynnir croeso i Emyr ap Dafydd, plentyn Dr. David Page Williams a Mrs. Glesni Williams, a anwyd ym mis Hydref yn Ysbyty Prifysgol Cymru. Mae Mr. a Mrs. Williams yn byw yn Heol Henllys, Cyncoed. Darlithydd yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg yw Mr. Williams.

LLONGYFARCHIADAU...... i Helen (Bennet gynt) ar gael ei phenodi'n Bennaeth Adran Gymraeg Ysgol Howells, Caerdydd.

* *

LLONGYFARCHION.... i Huw a Carol (Llywelyn Davies) ar enedigaeth eu mab Rhodri ym mis Hydref.


## HYSBYSEBU

Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:

CYHOEDDIADAU AP DAFYDD CYF.
55 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,
Caerdydd CF1 8LW.
Ffôn: 0222 - 396262

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)


# KIBBUTZ

**Prin bod unryw ffermydd, fel y deallwn ni'r gair, yn bod yn Israel, Efallai bod tua hanner dwsin, ond fe gaiff y tir amaethyddol bron i gyd ei ffermio gan 'kibbutzim' neu 'moshavim.' Mae oddeutu tri chant a hanner o kibbutzim a thua pedwar cant o moshavim. Ar yr olwg gynta ymddengys y ddau yr un fath ond mae gwahaniaeth mawr yn eu hathroniaethau sylfaenol ac, o ganlyniad, yn eu trefn ariannol.**

Mewn moshav perthyn darn o'r tir i berson unigol (neu deulu) a fe'n unig fydd yn ei ffermio a derbyn yr elw. Felly, er bod cryn gydweithrediad mewnol yn y moshav — perthyn yr offer i'r moshav ei hun: marchnetir yr holl gynnyrch ynghyd; trefnir cyfleusterau ac adloniant gan y moshav yn hytrach na'r unigolyn — mae pob teulu yn uned ariannol gwahanol. Cymharer y gyfundrefn hon ag eiddo'r kibbutz, lle gwerir yr elw yn unol a phenderfyniadau'r cyfarfodydd. Derbynia'r aelod yr hyn sydd ei angen arno; golyga hyn y bydd dyn di-briod yn gweithio, nid er ei les ei hun, ond er mwyn cynnal teulu ei gymydog. Comiwynyddiaeth ar raddfa fechan ydy hyn felly a phrin iawn ydy'r crefyddwyr ymhlith y cymdeithasau.

Derbynia'r kibbutzim wirfoddolwyr eraill i aros dros dro i weithio ac ymuno ym mywyd y lle yn gyffredinol, ac mewn kibbutz o'r enw "Urim" y bum innau. Cynhwysa tua phedwar cant a hanner o bobl a saif yn ymyl anialwch y Negev — anialwch sy'n cilio yn raddol gydag ymdrechion yr Israeliaid i ddyfrhau a gwella'r pridd. Mae'r tir yn wastad iawn ac yn wyrdd ac fe geir nifer go dda o goed a chaeau mawr yn amgylchyhu'r adeiladau. Un heol goncrit yn unig sydd yno, a honno'n arwain i bentref y kibbutz a stopio yno! O fewn yr ardal breswyl nid oes ond llwybrau — blaenoriaeth i'r beic!

Mae'r gwaith cynhyrchol, wrth reswm, o natur amaethyddol gan mwyaf a defnyddir y dulliau diweddaraf. Yn wir mae'r Israeliaid yn arwain y ffordd mewn rhai agweddau ar ymchwil amaethyddol, yn arbennig dyfrhau. Ond heddiw tuedda'r kibbutzim fwyfwy i gynnwys ffatri o ryw-fath ac yn Urim cynhyrchid cyllyll a 'screwdrivers' mewn ffatri fechan gan ugain o weithwyr.

Mae rhai agweddau o'r gwaith o ddiddordeb cymdeithasol neu wleidyddol. Yn gyntaf, mae wedi mynd yn arferiad yn ddiweddar i wneud defnydd o weithwyr cyflogedig. Mae hyn yn rhagrith pur am ei fod yn gwbl groes i egwyddor sylfaenol syniadaeth y kibbutz — yr egwyddor Gomiwnyddol. Ceir ambell Israeli ymhlith y gweithwyr hyn ond Arabiaid ydy'r mwyafrif a gweithiant am dal isel dros ben.

Agwedd arall sy'n haeddu sylw ydy safle'r fenyw yn y gyfundrefn weithiol. Un o amcanion y kibbutzim oedd rhyddhau'r menywod o'u gwaith traddodiadol a chyfyngedig. Gofelir am y plant mân a'r henoed mewn canolfannau arbennig; gellir cymryd pob pryd yn ystafell fwyta'r kibbutz fel na fydd yn rhaid i'r fam goginio ar gyfer ei theulu, ac nid oes fawr angen siopa (na chyfle chwaith). Dylai hyn adael y menywod yn rhydd i weithio, yn wir, rhaid gweithio, nid mater o ddewis mohono. Er hynny, yn achos Urim o leiaf, nid oedd rhan y menywod wedi newid llawer. Nhw a ofalai am ganolfannau'r plant a'r henoed a nhw a wnai 'r rhan fwyaf o'r gwaith yn y gegin a'r golchdy. Dynion a welid gan amlaf yn y ffatri, y garej, a'r caeau.

Ond sut mae'r bywyd ar y kibbutz yn cymharu â'n hun ni? Mae'r manteision yn niferus. Prin bod unryw bwysau ar rywun — nid oes bryderon ariannol mae'r gwaith, at ei gilydd, yn hawdd. Ni raid siopa, golchi dillad, coginio ac ati. Gofelir am yr henoed a'r plant. Mae'r rhain yn ddiogel gan nad oes trafnidiaeth o fewn y kibbutz. Am yr un rheswm mae'r pentref yn dawel ac yn lân. Mae hyn, yn ei dro, yn gwneud bywyd yn iachus iawn. Eto'i gyd mae rhai o'r ffactorau hyn yn anfanteision ar yr un pryd. Mae'r gwaith yn rhy hawdd ac y mae diffyg problemau yn broblem ynddo'i hun oherwydd mae diffyg cymhelliad meddyliol yn dilyn. Wedi oriau gwaith ychydig iawn sydd i'w wneud. Yn Urim roedd bar coffi ar agor dair noson yr wythnos, cwrt pêl-droed, pwll nofio a llyfrgell fach. Nos Fawrth oedd noson fawr yr wythnos — noson y ffilm — digwyddiad pwysig! Ond ar y cyfan ychydig iawn a wnaent gyda'i gilydd.

Diflastod ydy'r canlyniad terfynol ac roeddwn i, yn bersonol, wedi cael hen ddigon cyn pen deufis ac yn falch o gael dychwelyd at fy mhroblemau!

DIC JAMES.

# Dipyn o Breizh

**Bu Llydaw'n gyrchfan i nifer helaeth o Gymry yn ystod gwyliau'r haf. Pwy, fe'ch clywaf yn ocheneidio'n barod, sydd am ddarllen hanes anturiaethau islaw heulwen Awst a ninnau'n rhynnu ar ganol gaeaf gwlyb a llwm, a'r Nadolig ar ein gwarthaf? Credwch fi dyma'r amser gorau i dreulio ambell orig yn hel atgofion am ryw sgwrs felys, pryd bythgofiadwy, neu anffawd a ymdebygai i drychineb aruthrol rai misoedd yn ôl ond sydd bellach yn,gyfrwng i ddenu chwerthiniad iach o fol y mwyaf difrifol o gyfeillion. Ymlaen a'r hanes felly.**

Ymddengys fod mwy ohonom nag arfer wedi penderfynu croesi'r dwr eleni i ymweld â'n cefndryd Celtaidd. Gwelwyd cyfle efallai i gyfuno gwyliau hamddenol â rhyw gywreinrwydd nid annisgwyl ynglyn â'r Llydawr, ei wlad a'i iaith. Beth bynnag fu'r ysgogiad, darganfuwyd ymhlith yr ymwelwyr ambell i ddarlithydd o Gymro, gweinidog neu ddau, carfan gref o athrawon, aelod seneddol, dim llai, a nifer o ser y byd pop. Yng nghwmni'r olaf y cefais gip ar ogoniannau Llydaw, nid fel un ohonynt cofiwch, ond yn eu plith.

Fe fydd darllenwyr "Y Cymro", yn siwr o gofio i Ddafydd Iwan a Mynediad am Ddim grwydro 'r rhan orllewinol o Lydaw, gan wneud eu gorau glas i ledaenu efengyl Wa Macspredar ymhlith y Llydawyr. Cafwyd cryn lwyddiant. Sylweddolwyd yn fuan fod yma farchnad ddeniadol i gynnyrch diwylliannol Cymraeg, yn enwedig yn y maes cerddorol. Ennynai curiad cryf yr alawon Celtaidd ymateb brwdfrydig gan y cynulleidfaoedd. Gymaint oedd eu hedmygedd o chwarae medrus y bechgyn ar eu hamryfal offerynnau a'r cyfuniadau lleisiol nodedig, fel y rhuthrent, yn llythrennol, i brynu'r recordiau a werthid ar ddiwedd pob cyngerdd. Llai ffafriol efallai oedd y derbyniad a gafodd Dafydd Iwan, er fod ei berfformiadau mor wefreiddiol ag erioed yn ein golwg ni'r Cymry. Amlygai hyn, fel yr addefai'r canwr ei hun, mai yn y geiriau y pery cryfder ei ganeuon. Tasg anodd oedd cyfleu angerdd 'Pam fod yr eira'n wyn?' i gyfandirwyr, cyd-Geltiaid neu beidio. Gyda hyn mewn golwg ni fyddai'n ddrwg o beth i baratoi cyfieithiadau'n arbennig ar eu cyfer, gan gofio nad yw Llydaw ond cornel fechan o farchnad enfawr y gellid manteisio arni. Arwyddocaol dros ben oedd poblogrwydd amlwg grwpiau Gwyddelig megis y "Chieftains" nid yn unig ymysg y gwerthwyr recordiau, ond ymhlith yr ifanc hefyd. Digwyddiad prin fyddai dod ar draws recordiau o Gymru hyd yn oed pan fyddai'r siop yn arbenigo mewn cynnyrch Celtaidd. Gan amlaf cwyn y gwerthwr fyddai na allai gael gwared o'r recordiau hyn gan nad oedd gofyn amdanynt. Ni allai ragweld gofyn ychwaith nes fod y cyhoedd wedi cael cyfle i werthfawrogi doniau'r Cymry mewn cyngherddau yn Llydaw. Llysgenhadon yn arloesi oedd Mynediad am Ddim a Dafydd Iwan eleni, a gellwch fentro na chafodd yr un llysgennad fwy o groeso.

Mor falch er engraifft, oedd y Llydawyr yn Plougerneau, o'r cyfle i groesawu'r fintai fechan hon o Gymru. Cafwyd yr argraff fod ganddynt gryn dipyn mwy o ddiddordeb ynom ni fel cenedl na ni ynddynt hwy. Camargraff efallai, ond anodd fyddai peidio rhyfeddu at y llu o bobl a ddeuai ymlaen atom i ddweud gair neu ddau o Gymraeg ac i adrodd hanes eu hymweliadau â Chymru. Mynegai un brawd ei falchder o fod wedi prynu record Tecwyn Ifan mewn siop yn Nolgellau, o bob man. Dychmygwch ein syndod pan ddaeth un lodes ymlaen atom, ac yn lle gofyn, os oedd awydd "un verre" ar rywun, yn erfyn arnom mewn Cymraeg croyw, teilwng o Ben Llyn, i "ddwad am banad' — o goffi! Ond peidiwch da chi a meddwl mai gwyliau dirwestol eu naws a gafwyd. Wedi'r cwbl 'roedd hynny'n annhebygol ymhlith criw o hogiau Aber. Nid aethai'r canllaw hwnnw sy'n annog yr ymwelydd i ymddwyn fel ei letywr yn angof ychwaith. Chouchen (diod a blas cryf o fêl arno) a gwin coch a roddid o'n blaenau gan amlaf er nad yw gwinllanoedd yn bethau cyffredin yn Llydaw. Ni wnaem felly ond dilyn ôl traed un o enwogion y ganrif hon a ffolodd yn llwyr ar Lydaw a'i thraddodiadau, sef Ambrose Bebb. Ymhen ychydig ddyddiau gallem ddweud fel y blaenor Methodist hwnnw nad oedd profiad mwy dymunol na throi mewn i windy er mwyn oeri'r llwnc.

(Erys ochr arall i'r geiniog fodd bynnag nad yw mor ddymunol ei gwedd. Achosir mwy o farwolaethau gan alcholiaeth yn Llydaw nag mewn unrhyw ran o Ffrainc. Yn wir, honna rai arbenigwyr fod hyn yn nodweddiadol o'r gwledydd bychain sydd yn parhau dan reolaeth un fwy. Faint o wir sydd yn hyn, anodd yw dweud, ond mae'n werth ystyried).

Ond yn ôl at y gylchdaith. Cafwyd cyngherddau mewn eglwys, mewn theatr, mewn canolfan chwaraeon, ac yn yr awyr agored. Ni ragorwyd ar honno ym mhentref bach Landunves mewn eglwys foel a honno dan ei sang. Rhoddai awyrgylch arbennig y fangre honno ysbrydoliaeth newydd i'r bechgyn wedi wythnos lafurus yn yr Eisteddfod, bron fel petaent am ddangos eu gwerthfawrogiad o'r croeso twymgalon a gafwyd gan faer y pentref, Monsieur Bertrand.

Fe'n siomwyd o sylweddoli mai cymharol ychydig o'r iaith Lydaweg a glywid ymhlith y genhedlaeth iau. Yn wir, cyfaddefai rai ohonynt na allent ei siarad o gwbl, er nad ystyrid hyn yn rwystr i'w hymwybyddiaeth cenedlaethol. Yn aml ni allent lai na synnu at y ffaith na freuddwydiem ni siarad unrhyw iaith ond y Gymraeg ymysg ein gilydd. Ni wnai hyn ond cadarnhau'r argraff, arwynebol efallai, fod y syniad traddodiadol o genedlaetholdeb ieithyddol yn israddol yn eu golwg i'r gred sosialaidd. Ffrangeg, felly, oedd iaith y gyfathrach rhyngom a'n cyfeillion — eironig braidd ond nid oedd dewis. Ar y llaw arall, rhoddai hyn gyfle i ambell un ystwytho rhyw gymaint ar ei Ffrangeg lefel 'O' rhydlyd. Ystyriai Pete, brodor o Gyn Coed, ei hun yn dipyn o arbenigwr ar ôl ychydig o ymarfer, ond penderfynodd Emyr Wyn nad oedd fawr o bwrpas iddo ef ymdrechu, a gwell oedd ganddo adael y gwaith i eraill.

Daeth y daith i'w therfyn ac, ar waetha'r salwch môr a amharodd ar fwynhad un neu ddau, gellwch fentro na fydd y fintai hon yn oedi'n hir cyn dychwelyd i Lydaw i fedi'r hyn a heuwyd. Nid mewn undeb mae nerth bob amser, ond yn y cyswllt hwn rhaid cydnabod fod cryn wirionedd yn yr hen ddihareb. Onid trwy gydweithredu â'n cyfeillion yn y gwledydd Celtaidd ac ymhlith y lleiafrifoedd eraill y'n galluogir ni i amddiffyn ein treftadaeth amhrisiadwy ac i wrthsefyll y dilyw Eingl-Americanaidd?

DEWI LLWYD WILLIAMS



# DWY DDRAMA

## DRWS PRIODAS

**Sgript wedi ei chyfansoddi o weithiau William Williams, Pantycelyn, oedd y cynhyrchiad hwn gan Theatr Cymru. Rhaid yw i mi gyfaddef o'r cychwyn nad oedd yr gafael ynof o gwbl. Ymgais oedd yma i ddangos effaith y diwygiad ar garwriaeth a phriodas dau bâr ifanc. Wedi ail-feddwl tybed mai ymgais oedd yma i ddangos yr ymgiprys a'r gwrthdaro ym meddwl Pantycelyn ei hun drwy gymeriadaeth Cefin Roberts a Wyn Bowen Harris — y da a'r drwg, y cyfiawn a'r anghyfiawn? Os felly ni lwyddwyd i ddangos y gwrthdaro a'r tyndra hwn o gwbl.**

Cafwyd perfformiad graenus gan Cefin Roberts ond ni lwyddod Wyn Bowen Harris i'm argyhoeddi o gwbl a thueddai i or-wneud drwyddi draw; er efallai fod rhywfaint o fai am hyn ar y script. Hoffais berfformiad Sharon Morgan ac Ernest Evans yn fawr iawn, ond ymgais ddewr gafwyd gan yr actorion a'r cynhyrchydd i greu rhyw fath o berfformiad allan o sgript nad oedd iddi ddatblygiad pendant o gwbl. Adlewrychid yma bwll o ddŵr gyda chrychni ar yr wyneb a'r dyfnder heb ei gyffwrdd. Diau fod y cynhyrchiad yn apelio at y genhelaeth hŷn — ond tybed mai'r canu'n *unig* oedd yn gafael? Er cystal hwnnw rhaid wrth fwy na hyn i greu drama a pherfformiad graenus.



*Carys Evans a Dave Birstal, a briodwyd yn ddiweddar yng Nghapel y Tabernacl, Caerdydd.*

## YR ADDEWID ....

**cyfieithiad o'r Rwsieg gan Gareth Jones.**

**Dyma un o'r dramau mwyaf gafaelgar y cefais y profiad o'i gweld yn ystod y blynyddoedd diweddaraf yma. Braf iawn yw gallu mynegi boddhad o fynd i'r theatr a mwynhau cynhyrchiad Cymraeg safonol. Drama ddiddorol oedd hon yn dal sylw'r gynulleidfa 'n llwyr.**

Teimlais fod y cyfieithiad gan Gareth Jones yn arbennig iawn a'r tri actor — Gaynor Morgan Rees, Huw Tudor a Mei yn ymdrin â'r iaith lafar yn feistrolgar a naturiol. Llwyddodd y tri ohonynt i drosglwyddo tyndra'u perthynas yn dra-effeithiol, ac er y straen anorfod a grewyd, rhaid oedd i ni werthfawrogi holl ddylanwad y gyfundrefn gymdeithasol o'u hamgylch. Perfformiad Gaynor Morgan Rees oedd yr un mwya gafaelgar — datblygodd ei chymeriad o groten un ar bymtheg hyd at fenyw dros ei deg ar hugain yn drawiadol dros ben. Gan fod 'Yr Addewid' yn ddrama 'episodig' torrwyd ar y naws ambell waith drwy symud dodrefn ac ati, a oedd angen cymaint o benodau â hyn? Er hyn cafwyd noson o theatr bur a boddhad mawr oedd gweld y cynhyrchiad arbennig hwn gan Theatr Cymru.

**CLWB CYMRIC**

NI CHAFWD ADRODDIAD GAN MOI PARRI YTRO HWN.




AWN AM DRO!
Sesiwn i'r Plant yn Siop y Triban
Dydd Sadwrn, RHAGFYR 17
* Dafydd Iwan
* Emyr Wyn
* Mynediad am Ddim
10–12 a.m.
Lansio Record newydd — Dafydd Iwan ac Edward
"Yn ôl i Gwm Rhyd-y Rhosyn"

Oriel
53 Heol Siarl Caerdydd
Teliffon: 0222 395548

SIOP LYFRAU 1:-
Llyfrau Cymraeg, Eingl-Gymreig, Barddoniaeth, Recordiau, Posteri, Cardiau.

SIOP LYFRAU 2:-
Llyfrau ar Gelf, Pensaerniaeth, Ffotograffiaeth, Sinema, Printiadau, ac ati.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd, Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917. Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262. C929.*